NICE National Institute for Health and Care Excellence

Brentuximab vedotin i drin lymffoma Hodgkin CD30-positif

13 Mehefin 2018

Mae brentuximab vedotin (Adcetris) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer lymffoma Hodgkin CD30-positif atglafychol ac anhydrin mewn oedolion:

- sydd eisoes wedi cael trawsblaniad bôn-gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain neu
- na allant gael cemotherapi amlgyfrwng na thrawsblaniad bôn-gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain, ond sydd eisoes wedi cael dwy driniaeth arall.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd brentuximab vedotin nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Bloodwise (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol), 0808 2080 888
- Cymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555
- GOFAL Lewcemia, 0808 801 0444

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2965-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights